

**1 Mae comin Carreg Sawdde** wedi bod yn dir pori agored ers y 13eg ganrif, pan roddodd Esgob Tyddewi yr hawliau pori i fwrdeisiaid Llangadog. Yn y canol oesoedd, roedd Felindre, i'r de o'r comin, yn ystad ym meddiant Arglwyddiaeth Llanymddyfri, gyda'i lys a'i ffair flynyddol ei hun. Mae'n bosib fod patrymau'r caeau i'r gorllewin o'r pentref yn cynrychioli hen gaeau rhes y canol oesoedd.

**2 Mae'n werth treulio ychydig amser ger y bont dros afon Sawdde** i werthfawrogi'r olygfa ac i weld yr amrywiol adar sy'n cael eu denu gan yr afon. Yn yr haf rydych yn debygol o weld y Siglen Fraith yn chwilio am drychfilod ymhlith y cerrig mân, tra bydd y Wennol, Wennol y Glennydd a'r Wennol Ddu yn cael hwyl uwch eich pen yn arddangos eu gallu hedfan arbennig. Mae'n bosib y bydd y rhai mwyaf amyneddgar, neu mwyaf llwus, yn llwyddo i gael cipolwg ar Bibydd, Bronwen y Dr a Glas y Dorlan.

**3 Mae'r llwybr yn croesi'r afon yng Nglanrhysaeson** gerllaw y rheilffordd. Arferai sam fod yma o'r enw Rhyd-y-saeson. Ceir golygfa wych i'r de o Garn Goch a Chaer Fawr, y fryngaer o'r Oes Haearn sy'n eistedd ar ben y garn.

**4 Pont bren a arferai groesi'r Tywi yn y man hwn ond yn 1819** adeiladwyd pont garreg yn ei lle. O'r bont ceir golygfa dda o orlifdir Tywi. I'r gorllewin mae safle'r cyn blasty Direlton neu Danyrallt a safai ychydig yn uwch na'r gorlifdir ond mae'r t a'r parcdir bellach wedi diflannu.

**5 Yn 1858 agorwyd Rheilffordd Dyffryn Tywi o Llandeilo i Lanymddyfri gan Gwmni Rheilffordd a Dociau Llanelli.** Erbyn hyn mae'r rheilffordd yn ran o reilffordd Calon Cymru sy'n rhedeg o Abertawe i'r Amwythig.

**6 Mae Castell Meurig** yn esiampl ardderchog o gastell mwnt a beili o'r oesoedd canol. Mae t modern bellach yn sefyll o fewn y beili. O deithio ar hyd y llwybr caiff cerddwyr y cyfle i gael golygfa heb ei hail o ochr y beili o'r mwnt tu draw sydd bellach wedi'i orchuddio â choed. Cipiwyd y castell oddi ar y Normaniaid yn 1203 gan Dywysog Maelgwyn ap Rhys gan ddefnyddio "catapyltau a ffyn tafl", ond mae'n debyg na wnaed unrhyw ddefnydd ohono ar ôl hynny. Yn ôl traddodiad lleol bu twr carreg ar y mwnt ar un adeg.

**7 Mae'n debyg mai Heol y Beddau** oedd yr enw traddodiadol ar y llwybr drwy Coed Cae'r Bedw yn ôl y trigolion hn. Bernid mai claddfeydd milwyr a fu farw o'r pla oedd y tomenni isel a welid ar ddechrau'r 20fed ganrif.

**8 Â'r llwybr heibio i'r cyn Blasty Glansefin,** a oedd ar un adeg yn gartref i deulu Lloyd. Mae bellach wedi cael ei addasu yn llety gwyliau. Mewn asesiad a gynhaliwyd yn 1670 at ddibenion treth nodwyd fod ganddo wyth aelwyd oedd yn ei

wneud yn un o'r tai mwyaf yn yr ardal. Ymadawodd y teulu â'r t ar ddechrau'r 20fed ganrif gan ddychwelyd yno dros dro i ddarparu llety i faciwis yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

**9 Roedd melin yn Glansefin** yn rhan o ystad Glansefin, lle byddai'n rhaid i'r tenantiaid ddod â'i hd i gael ei falu. Er bod y Fasarn Fach, a welir yn tyfu gerllaw y llwybr, yn gynhenid i Gymru nid yn aml y gwelir hi'n tyfu mor bell â hyn i'r gorllewin. Mae'r esiamplau arbennig hyn yn anarferol o fawr a hen ac mae'n eithaf tebyg eu bod hwy neu eu rhagflaenydd wedi cael eu plannu i ffurfio rhan o glawdd. Perthyn y fasarnen i deulu coed Acer fel y Sycamorwydden.

**10 Yn yr haf mae Teim Gwyllt yn tyfu o dan y cloddiau,** gan ddenu amrywiaeth o wahanol drychfilod ac mae ei flodau porffor yn hynod o ddeniadol i'r Gwyfyn Brwned. Caiff aer yr haf ei bersawru gan flodau'r Gwyddfid a blodau cain gwyn y Ddrysen Bêr.

**1 Carreg Sawdde common** has been unenclosed grazing land since the 13th century, when the Bishop of St David's gave the burgesses of Llangadog grazing rights here. In medieval times, Felindre, to the south of the common, was an estate of the Lordship of Llandovery, with its own court and annual fair. The field pattern to the west of the village may represent former medieval strip fields.

**2 It is worth spending a few moments by the bridge over the Sawdde river** to take in the view and to see what bird life the river attracts. In summer you are likely to see Pied Wagtail searching for insects amongst the pebbles, while Swallows, Sand Martins and Swifts reel overhead displaying their astonishing aerial acrobatics. A patient or lucky passer-by may even see Sandpipers, Dipper or Kingfisher.

**4 The stone bridge over the Towy** was built in 1819, replacing a former timber bridge. From the bridge there is a good view of the Towy floodplain. To the west is the site of the former Direlton or Danyrallt mansion which stood just above the floodplain. The house and its parkland have now disappeared.

**5 In 1858 the Llanelly Railway and Dock Company** opened the railway line from Llandeilo to Llandovery as the Vale of Towy Line. The line is now part of the Heart of Wales Line running from Swansea to Shrewsbury.

**6 Castell Meurig** is a wonderful example of a medieval motte and bailey castle. A modern house stands within its bailey. The footpath gives walkers an unrivalled view of the bank of the bailey and the tree-covered motte beyond. Prince Maelgwyn ap Rhys captured the castle from the Normans using "catapults and sling" in 1203, after which it appears to have been disused. Local tradition says that there was once a stone tower on the motte.


**7 The pathway through Coed Cae'r Bedw** was traditionally known to older inhabitants as Heol y Beddau or "the road of the graves". Low mounds visible in the early 20th century were said to be the burial places of warriors who had died of plague.

**7 The footpath passes the former coach house of Glansevin Mansion,** once the seat of the Lloyd family, now converted to holiday accommodation. In 1670 it was assessed for tax purposes as having eight hearths, making it one of the largest houses in the area. The family left the house at the beginning of the 20th century, returning temporarily to provide accommodation for evacuees during World War Two.

**8 Glansevin corn mill** was part of the Glansevin estate, where estate tenants were required to bring their corn for milling.

**9 Although Field Maple** is a native tree to Wales it is uncommon to see them growing as far west as the specimens growing here next to the footpath. They are unusually large and old and they, or their ancestors, were probably planted to form part of a hedgerow. They belong to the Acer family of trees, the same as Sycamore.

**10 In summer Wild Thyme** grows beneath the hedgerow, attracting a variety of insect life. Its purple flowers prove particularly attractive to Burnet Moths. Honeysuckle flowers scent the summer air along with the delicate white flowers of the Field Rose.



Llwybrau a Argymhellir  
Hawliau Tramwy Eraill

Recommended Route  
Other Rights of Way

Hawffraint y Goron © Crown Copyright LA09007L/97/01



